



Llais Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru
The Voice of Community and Town Councils in Wales

Nodyn Datblygu Ymarfer 3

Practice Development Note 3

Amserlen Camau Cyn Etholiad

Pre Election Period Timetable of Actions

Dyddiad Cyhoeddi Ebrill 2024

Date Issued April 2024

Dyddiad Adolygu Ebrill 2025

Review Date April 2025

Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor.

This information is owned by One Voice Wales under copyright. It is intended for members of One Voice Wales only. Please contact One Voice Wales if you propose circulating this information outside of your Council.

Lyn Cadwallader BA(Hons), PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive
www.onevoicewales.org.uk



Nodyn Datblygu Ymarfer 3 Un Llais Cymru

Amserlen Camau Blynyddol y “Cyfnod Cyn Etholiad”

Canllaw syml i Gyngorau Cymuned a Thref

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
1. Rhagarweiniad			
<p>1.1 Y Cyfnod Cyn Etholiad, a alwyd ar un adeg yn purdah, yw'r cyfnod rhwng cyhoeddi etholiad a dyddiad cynnal yr etholiad. Gosodir rhai cyfyngiadau ar lywodraeth ganol a lleol o ran gweithgarwch gwleidyddol yn y cyfnod yn arwain at etholiad. Dylai Cyngorau Cymuned a Thref gadw at y cyfyngiadau hyn hefyd. Mae'r term 'sensitifrwydd uwch' yn cael ei ddefnyddio hefyd.</p>	<p>Osgoi'r cyhuddiad fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiad.</p>	<p>Mae cyhoeddi Hysbysiad am Etholiad yn cychwyn y Cyfnod Cyn Etholiad. Mae'r cyfnod hwn yn parhau tan ar ôl yr etholiad.</p>	<p>Dyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad am Etholiad yw cychwyn y Cyfnod Cyn Etholiad.</p>

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
<p>Mae rheolau cyn etholiad yn cyfyngu ar fwy na chyhoeddusrwydd yn unig. Dylid ystyried y defnydd o gyfleusterau ac adnoddau'r Cyngor; y cod ymddygiad, datblygu polisiau newydd a chynnal digwyddiadau – gan gynnwys rhai cyfarfodydd – yn cynnwys swyddogion etholedig yn ofalus yn ystod cyfnod o sensitifrwydd uwch.</p>			

Pethau pwysig i'w cofio:

- Peidiwch â'i alw'n Purdah! Nid yw'r term hwn yn cael ei ddefnyddio mwyach. Yr enw arno erbyn hyn yw'r Cyfnod Cyn Etholiad.
- Nid yw'r Cyfnod Cyn Etholiad yn golygu fod rhaid i bob cyfathrebu ddod i ben yn gyfan gwbl. Nid yw hynny'n wir, a gall gwaith arferol Cyngorau barhau, ond gall y gyfraith osod rhai cyfyngiadau.
- Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i'r Cyngor fod yn ofalus iawn ei fod yn osgoi unrhyw awgrym fod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio at ddibenion gwleidyddol. Mae adnoddau'r Cyngor yn cynnwys adeiladau'r Cyngor, offer TG, cyfeiriadau e-bost, gwefannau, ffonau, llungopiwyd, deunydd ysgrifennu'r Cyngor, postio, trafnidiaeth, a'r defnydd o amser staff y Cyngor.
- Gall Cyngorwyr barhau i ddefnyddio adeiladau'r Cyngor ar gyfer Cymorthfeydd Ward, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r holl reolau a mesurau arferol. Hefyd, gall Cyngorwyr arddangos Hysbysiadau Cymorthfeydd ar hysbysfyrdau'r Cyngor, ar yr amod yr arddangosir yr hysbysiad arferol.
- Peidiwch â chyhoeddi cyhoedduswydd sy'n rhoi mantais neu anfantais wleidyddol i unrhyw ymgeisydd neu blaid wleidyddol neu'n dylanwadu ar bleidleiswyr yn yr Etholiad.
- Gall "Cyhoedduswydd" gynnwys unrhyw gyfathrebu, ym mha ffurf bynnag, a gyfeirir at y cyhoedd yn gyffredinol neu at ran o'r cyhoedd. Mae'n cynnwys areithiau, cyfweiliadau, eitemau ar wefannau'r Cyngor, cyfryngau cymdeithasol, hysbysfyrdau, datganiadau i'r wasg, cylchlythyron, taflenni, ac erthyglau papurau newyddion a gyhoeddwyd gan neu ar ran y Cyngor. Gall hefyd gynnwys cyhoedduswydd a gynhyrchir gan fudiadau y mae'r Cyngor yn eu hariannu.
- Pan mae Cyngor yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus neu'n cefnogi neu gynorthwyo mewn cyfarfodydd a drefnir gan eraill, caiff hyn hefyd ei effeithio gan y rheolau cyhoedduswydd. Nid yw'r bwriad y tu ôl i'r cyhoedduswydd yn bwysig, yr hyn sy'n bwysig yw a yw'n 'ymddangos' mai ei fwriad yw effeithio cefnogaeth.
- Dylai gwaith arferol y Cyngor barhau, gan gynnwys ymateb i ymholiadau Aelodau, delio â gohebiaeth Aelodau, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a darparu gwybodaeth a chymorth i Aelodau mewn ffordd deg a diduedd, i gefnogi Aelodau i gyflawni eu gwaith ar y Cyngor. Fodd bynnag, yn ystod y Cyfnod Cyn Etholiad, mae'n debygol y gall hyd yn oed 'gwaith arferol' fynd yn

fwyfwy gwleidyddol. Dylid darparu unrhyw wybodaeth ffeithiol a roddir i un cynghorydd ward (ac eithrio wrth ddelio â gwaith achos yn ymwneud ag amgylchiadau personol unigolyn) i gynghorwyr eraill yn yr un ward hefyd, gan gynnwys rhai o bleidiau gwleidyddol gwahanol.

- Rhaid i Glercod fod yn ofalus eu bod yn osgoi cyhuddiadau y bydd cynigion penodol gan swyddogion yn effeithio cefnogaeth i un ymgeisydd neu blaid wleidyddol a dylid gohirio gosod materion a phenderfyniadau ar yr agenda os allai hynny'n rhesymol fod yn wir. Dylid osgoi ymarferiadau ymgynghori mawr yn ystod y Cyfnod Cyn Etholiad.
- Mae'r canllaw hwn yn cynnwys cyngor cyffredinol ar y cyfyngiadau cyhoeddusrwydd y dylid cadw atynt yn ystod y Cyfnod Cyn Etholiad. Ceir rhagor o ganllawiau yn y [canllaw byr hwn ar gyhoeddusrwydd yn ystod y Cyfnod Cyn Etholiad](https://www.local.gov.uk/our-support/guidance-and-resources/pre-election-period) <<https://www.local.gov.uk/our-support/guidance-and-resources/pre-election-period>> a ['beth mae'r Cyfnod Cyn Etholiad yn ei olygu yn ymarferol](https://www.local.gov.uk/our-support/purdah/what-purdah-means-practice) <<https://www.local.gov.uk/our-support/purdah/what-purdah-means-practice>>. Dylid ei ddarllen law yn llaw ag unrhyw ganllawiau a gynhrychir gan eich Swyddog Canlyniadau neu eich Swyddog Monitro eich hun, sy'n cynnig cyngor penodol gan ddibynnu ar eich amgylchiadau lleol.
- Os nad ydych yn siwr, siaradwch â'ch Swyddog Canlyniadau neu eich Swyddog Monitro eich hun.
- Bydd 2024 yn flwyddyn brysur ar gyfer etholiadau. Cynhelir y bleidlais i ethol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar ddydd Iau 2 Mai 2024. Bydd yr Hysbysiad am Etholiad wedi cael ei gyhoeddi'n barod. Trwy gydol y cyfnod rhwng cyhoeddi'r hysbysiad a chau'r gorsafoddd pleidleisio bydd y camau a ddisgrifiwyd uchod yn weithredol. Gallwn hefyd ddisgwyl Etholiad Cyffredinol yn ddiweddarach eleni.